OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 712 (Cy. 169)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Mehefin 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Mehefin 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Gorffennaf 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Gorffennaf 2017 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygiadau

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 3 (myfyrwyr cymwys)—

(a) ar ddechrau paragraff 3(k), mewnosoder "yn ddarostyngedig i baragraff (8),";

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7, Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257 a Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76 ac O.S. 2013/1881. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy. 149) (C. 79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy. 159) (C. 56)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2017/523 (Cy. 109).

(b) yn lle paragraff (8), rhodder—

"(8) Caiff Gweinidogion Cymru farnu bod person a ddisgrifir ym mharagraff (3)(i) neu (3)(k) yn fyfyriwr cymwys pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn nad oedd y person wedi gallu cwblhau'r cwrs yr oedd y benthyciad blaenorol yn ymwneud ag ef o ganlyniad i resymau personol cadarn."

**4.** Yn rheoliad 14(3) o'r testun Saesneg, ar ôl "payment of", hepgorer "the".

**5.** Yn Atodlen 1 (Myfyrwyr Cymwys), is-baragraff 9(1)—

(a) yn y testun Saesneg, ar ôl "person", hepgorer "who";

(b) yn y testun Saesneg, ar ddechrau paragraff (a), mewnosoder "who";

(c) ym mharagraff (a), hepgorer "naill ai";

(d) ar ddechrau paragraff (b), hepgorer "yn" a mewnosoder "sy'n";

(e) ar ddiwedd paragraff (b), hepgorer "neu";

(f) ar ddechrau paragraff (c), mewnosoder "sydd".

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

27 Mehefin 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") yn darparu ar gyfer gwneud benthyciadau i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar gyfer cyrsiau gradd feistr ôl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2017.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2017 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru, o dan amgylchiadau penodol, i farnu bod person sydd wedi cael benthyciad at radd feistr ôl-raddedig o dan Reoliadau 2017 neu fenthyciad (ac eithrio o dan Reoliadau 2017) mewn cysylltiad â chwrs gradd feistr ôl-raddedig gan awdurdod llywodraeth yn y Deyrnas Unedig yn gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2017.

Mae rheoliadau 4 a 5 yn cywiro gwallau teipograffyddol neu wallau gramadegol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.